**Ymateb y Llywodraeth: Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd ar gyfer Personau sy'n Teithio i Gymru etc.) (Diwygio) 2020**

## Craffu Technegol

1. **Rheol Sefydlog 21.2 (v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol.**

Mae'r Pwyllgor wedi nodi bod y rheoliad 3(2)(d) newydd yn ei gwneud yn ofynnol i weithredwr wneud cais i'r wybodaeth berthnasol gael ei throsglwyddo i unrhyw berson yr archebir taith ar ei ran, neu y cofrestrir ar gyfer taith ar ei ran. Mae'r Pwyllgor yn ystyried ei bod yn aneglur a ddylai'r cais hwnnw fod yn ysgrifenedig ynteu a ellir ei wneud ar lafar, a thynnodd sylw at hynny. Nodir fod hyn yn wahanol i'r rheoliad 3A(5) newydd, a fewnosodir gan reoliad 2(4). Mae'r rheoliad 3A(5) newydd yn datgan pan fydd person arall yn archebu taith ar wasanaeth teithwyr rhyngwladol ar ran teithiwr arall, y cydymffurfir â'r rheoliad os darperir yr wybodaeth berthnasol i'r person hwnnw rhwng 24 a 48 o oriau cyn yr amser y disgwylir i'r daith ymadael, ynghyd â chais ysgrifenedig iddo ddarparu'r wybodaeth honno i'r teithiwr.

Nid yw rheoliad 3(2)(d) yn pennu bod rhaid i'r cais fod yn ysgrifenedig, felly y gweithredwr sydd i benderfynu sut y gwneir y cais. Pan fo'n ofynnol i gais gael ei wneud yn ysgrifenedig, pennir hyn yn y ddarpariaeth berthnasol, fel yn y rheoliad 3A(5) newydd.

Er nad yw'n ofynnol i'r cais i drosglwyddo'r wybodaeth wrth archebu a chofrestru gael ei wneud yn ysgrifenedig yn unol â'r rheoliad 3(2)(d) newydd, gall gweithredwyr wneud y cais yn ysgrifenedig pe byddent yn dymuno gwneud hynny.

Byddwn yn ystyried a ddylid diwygio'r rheoliad 3(2)(d) newydd fel ei bod yn ofynnol i'r cais a wneir wrth archebu a chofrestru hefyd gael ei wneud yn ysgrifenedig.